

COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 7^{FED} RHAGFYR 2015 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr S. Roy, (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W. Bagnall, Mrs G Baker; J Davies (Dirprwy Maer); R Foreman; D Griffiths; Mrs L Griffiths; C Hughes; A Khan; A Mason; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; C Perry; Mrs V Perry; Mrs V Smith; S Taylor; C Wood MBE; S Williams

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Mrs Rachael Gill, Rheolwraig Marchnata a Chyfathrebiad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

254/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Croesawyd y Cynghorydd Mrs Glenys Baker (Ward Rhos) a'r Cynghorydd Adrian Mason (Ward Eirias) i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor ac fe dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N. Bastow, Mrs L Edwards, Mrs M Jones, P Richards a G Ward.

255/15 Cyhoeddiadau gan y Maer:

Cyhoeddwyd y canlynol yn fyr gan y Maer:

- a. Llythyr o gydymdeimlad a anfonwyd ar ran y Maer a'r Aelodau at y Cynghorydd Mrs M. Jones (yn dilyn marwolaeth ei merch yn ddiweddar) ac at Faer a phobl Roissy-en-Brie yn dilyn y digwyddiadau erchyll ym Mharis yn ddiweddar.
- b. Cafwyd munud o dawelwch er cof am y cyn Maer a'r Cynghorydd Tref Mrs Laurette Danson a fu farw yn Nhachwedd.
- c. Diolchwyd i Mrs Mary Meldrum am ei gwaith yn dirprwyo fel cymar y Maer yn absenoldeb y Cynghorydd Mrs M. Jones.
- ch. Atgoffwyd yr Aelodau am:
 - i Cyngerdd elusennol y Maer yn Eglwys Fethodistaidd, Llandrillo yn Rhos, dydd Iau 10^{fed} Rhagfyr am 7pm (tocynnau £5 yr un).
 - ii Carolau'r Nadolig gan ysgolion lleol yng Nghanolfan Bay View, dydd Sadwrn 15^{fed} Rhagfyr
- d. Dywedodd y Maer wrth yr Aelodau ei bod wedi derbyn gwahoddiad i fynychu digwyddiad y 'Showmens' Guild' y tu allan i ardal y Cyngor Tref ac y byddai'n talu am hyn ei hun ac nid allan o Lwfans y Maer.

256/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

257/15 Ymwelydd â'r Cyngor:

- a. Croesawyd Rachael Gill, Rheolwraig Marchnata a Chyfathrebiad, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, i'r cyfarfod gan y Maer, er mwyn iddi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyfarfod am ddigwyddiadau a drefnwyd gan GBS Conwy yn ardal Bae Colwyn.

Diolchodd Rachael i'r aelodau am y cyfle i gael cyflwyno adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf am ddigwyddiadau diweddar a'r cynlluniau at y dyfodol a dywedodd na fyddai'r digwyddiadau hyn yn mynd ymlaen ym Mae Colwyn heb gymorth gan y Cyngor Tref. Cafwyd cyflwyniad PowerPoint byr dan yr enw 'What a Year', gan adolygu'r digwyddiadau a fu yn y flwyddyn a aeth heibio, yn cynnwys :Prom Xtra, Elton John, cyflwyno Tîm Rygbi Cwpan y Byd Cymru a'r hyfforddiant a gafwyd, cyflwyniad gan dîm Taith Prydain, a digwyddiad Nadolig Arbennig a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cynhwyswyd yn y cyflwyniad, nifer o argraffiadau o'r cyfryngau cymdeithasol am y digwyddiadau hyn a'r cynnydd a fu yn i nifer o ymwelwyr a'r dref ac effaith economaidd hyn. Fe amcangyfrifwyd yn geidwadol bod dros 20,000 o bobl wedi ymweld â Chanolfan Bay View yn ystod y Digwyddiad Nadoligaidd diweddar, sef cynnydd o dros 90% yn y nifer arferol o ymwelwyr ar yr adeg yma o'r flwyddyn.

Yna cafwyd trosolwg o'r digwyddiadau arfaethedig am 2016, yn cynnwys cyngerdd Lionel Richie dydd Sul 19^{eg} Mehefin (gyda chyfeiriad at Fae Colwyn mewn hysbyseb diweddar yn ystod XFactor) a digwyddiad Prom Xtra 2016 sydd i'w gynnal am un diwrnod yn unig ar 14^{eg} Mai 2016 (gyda'r adloniant yn parhau gyda'r nos). Cyfeiriwyd hefyd at ddigwyddiad cerddorol o broffil uchel y bwriedir ei gynnal ym Medi. Ni ellir datgelu manylion pellach ar hyn o bryd hyd nes daw cadarnhad. Bydd hyn yn cymryd lle ail noson Mynediad i Bawb i Eirias, a anelwyd at gynulleidfa ifanc yn y blynyddoedd diweddar a lle cafwyd brwydr i werthu digon o docynnau. Gofynnodd Rachael i'r Cyngor Tref ystyried cymeradwyo ymrannu ei gyllideb dros dro o £20,000 tuag at ddigwyddiad Mynediad i Bawb i Eirias rhwng y ddau ddigwyddiad (£10,000 yr un).

Hysbysodd Rachael y Cyngor hefyd ei bod wedi bod yn gweithio gyda Chymunedau yn Gyntaf a Chlerc y Dref ar gais dros dro am gyllid o gronfa cyllid i gymunedau fferm wynt Gwynt y Môr i gyllido digwyddiadau ychwanegol yn 2016/17. Daeth y cyflwyniad i ben gyda rhai dyfyniadau gan fusnesau lleol yn dilyn rhai o'r digwyddiadau yn 2015, llawer ohonynt yn dweud eu bod wedi cael eu dyddiau marchnata gorau erioed ar ddiwrnod cyngerdd Elton John.

Yna cynhaliwyd sesiwn o holi ag ateb ac mae'r canlynol yn drosolwg byr o'r sylwadau / pryderon a fynegwyd: llawer o'r aelodau yn datgan eu gwerthfawrogiad i Rachael a'i thîm am y gwaith caled a wnaed i ddod a digwyddiadau mor llwyddiannus i Fae Colwyn; sut gellir gwella ar hyn yn 2016?: dywedodd Rachael bod hi a'i thîm yn ceisio bod yn gyson yn eu gwerthoedd tra o hyd yn chwilio am gyfleoedd newydd; cafwyd rhyw faint o drafodaeth am y cynnig i gynnal diwrnod Prom Xtra ar un ddiwrnod yn 2016 (yn hytrach nag ar ddau ddiwrnod) a gofynnodd nifer o aelodau Wardiau Rhos / Dinarth a fyddai'n bosibl i'r digwyddiad dychwelyd yn agosach at Landrillo yn Rhos; dywedodd Rachael bod y costau am ddigwyddiad dau ddiwrnod yn sylweddol uwch ond canfuwyd nad oedd y budd i fasnachwyr ayb wedi cynyddu yn gymharol, gyda'r fasnach yn cael ei daenu'n deneuach dros ddigwyddiad dau ddiwrnod. Roedd hefyd yn anodd dychwelyd i'r safle ar Bromenâd Cayley oherwydd y gwaith oedd yn mynd ymlaen ar Lan y Môr a'r cyfyngiadau ar y safle hwnnw heb unrhyw draeth parhaol ar gyfer gemau a chwaraeon di-dâl.

Fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau gan Rachael bydd lleoliad a hyd y digwyddiad yn cael ei adolygu yn y blynyddoedd i ddod pan fydd y cam(au) nesaf o waith ar lan y môr wedi cael ei gwblhau; gofynnwyd a oedd Porth Eirias wedi cael ei ddewis er mwyn ceisio cael mwy o fusnes i'r safle hwnnw ond atebodd Rachael trwy ddweud bod (costau) marchnata yn y bistro wedi bod yn llawer uwch na'r hyn a ddisgwyliad a bod y posibilrwydd o ehangu yn cael ei ystyried.

Diolchwyd i Rachael Gill am ei chyflwyniad addysgiadol gan y Maer ac yna gadawodd y cyfarfod.

Cyflwynodd y Clerc llythyr o ddiolch oddi wrth GBS Conwy am y cyllid ar gyfer Digwyddiad y Cyfnos oedd wedi helpu i ychwanegu at yr atyniadau di-dâl oedd ar gael yn y digwyddiad Nadoligaidd diweddar.

Penderfynwyd derbyn y llythyr a'i nodi.

- b. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan y Cynghorydd Foreman i gynrychiolwyr o Borth Eirias, yn cynnwys y Ganolfan Chwaraeon Dŵr a bwyty Bryn Williams, i fynychu cyfarfod yn y dyfodol.

Penderfynwyd ysgrifennu at Reolwr y Ganolfan i'w wahodd ef, Bryn Williams a Taffy (Canolfan Chwaraeon Dŵr) i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i roi adroddiad byr ac i ymateb i unrhyw gwestiynau.

- c. Fe nodwyd fe gynhelir Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor am 6.30pm ar ddydd Llun 4^{ydd} Ionawr er mwyn i Mr R. Dix (CBS Conwy) cyflwyno ymgynghoriad ar yr adolygiad o Brif Gynllun Bae Colwyn.

258/15 Cofnodion:

- a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 19^{eg} Hydref 2015.***
- b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
 - i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 27^{ain} Hydref 2015.***
 - ii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 18^{fed} Tachwedd 2015 (drafft)***
 - iii ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 24^{ain} Tachwedd 2015 (drafft).***

259/15 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hyn :

- a. **Cofnod 203/15 – Safleoedd Gwag ar y Cyngor:**

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Glenys Baker i fod yn 'Pencampwraig Treftadaeth' newydd ar ran y Cyngor Tref.

- b. **Cofnod 204/15 - Dirprwyo Gwasanaethau:**

Rhoddodd y Cynghorydd Hazel Meredith adroddiad byr ar lafar yn dilyn ei hymweliad a modiwl newydd Un Llais Cymru i gynghorwyr ar Ddirprwyo Gwasanaethau. Fe nodwyd bod y modiwl hwn yn ddarpariaeth dda at yr hyn all ddigwydd yn fuan mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedau a'r posibilrwydd o ddatganoli gwasanaethau o GBS Conwy.

Dyweddod y Clerc wrth yr Aelodau bod y deunydd hyfforddi wedi cael ei ysgrifennu gan gwmni o'r enw 'Community Matters' sydd wedi cefnogi llawer o grwpiau gwirfoddol a chynghorau lleol yn y blynyddoedd diweddar trwy roi gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau ymgynghorol mewn perthynas â throsglwyddo asedau cymunedol a gyda datganoli gwasanaethau.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid yn y man am y gwasanaethau sydd ar gael gan 'Community Matters'.

c. Cofnod 206/15 – Cofeb Rhyfel Hen Golwyn:

Fe nodwyd bod yr Ymddiriedolwyr wedi cyfarfod ac wedi cytuno i ychwanegu'r enw ychwanegol at y gofeb. Fe gynhelir gwasanaeth o ymgysregru yn y man.

ch Cofnod 207/15 - Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol:

Cyflwynodd y Clerc Cofnodion drafft cyfarfod yr Is-Bwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 1^{af} Rhagfyr 2015 a rhoddodd adroddiad byr ar lafar am y broses recriwtio.

Penderfynwyd cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y cyfweiliadau ac i benodi'r ymgeisydd mwyaf addas, fel y dangosir yn y cofnodion hynny.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Clerc e-bostio'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr yn dilyn y penodiad.

d. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ac i gadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y dangosir yn y Cofnodion canlynol:

- i Cofnod 221/15(b) – Ceisiadau am Grantiau: Diweddarau'r holl ffurflenni cais am grant i gynnwys rhan i'r ymgeisydd amlygu pa un o'r saith o nodau llesiant fydd y prosiect yn cyfrannu tuag ato.
- ii Cofnod 221/15(d) - Meddalwedd Llogi: Gwneud cymhariaeth o'r meddalwedd sydd ar gael a bod adroddiad / argymhelliad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid.
- iii Cofnod 223/15(c) - Adfywio Cod Ymddygiad: Nodi bod copi o'r sleidiau wed cyrraedd a gofyn i'r Clerc rhoi cyflwyniad i'r holl aelodau yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor sydd i'w gynnal ar 4^{ydd} Ionawr
- iv Cofnod 224/15 - Cynigion am ddangosyddion cenedlaethol i fesur y cynnydd tuag at y saith o Nodau Llesiant: Cymeradwyo'r ymateb drafft a gyflwynwyd gan y Clerc, yn codi pryderon am y posibilrwydd o ormod o reolaeth a monitro.
- v Cofnod 239/15(c) - Parcio Di-dâl y Nadolig: Dilyn arweiniad CBS Conwy a pheidio â chynnig parcio di-dâl ar ddau ddydd Sadwrn eleni.

Penderfynwyd cadarnhau holl argymhellion y Pwyllgorau fel y dangosir yn y cofnodion uchod

dd Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y dangosir yn y Cofnodion

260/15 Cydllynu gyda'r Heddlu:

Fe nodwyd bod y Maer a'r Clerc wedi cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Arolygydd Dros Dro Emma Naughton a gofynnwyd i'r aelodau ystyried y gweithrediadau a argymhellwyd o'r cyfarfod hwnnw fel y cyflwynwyd hwynt gan y Clerc.

Penderfynwyd cymeradwyo'r gweithrediadau canlynol:

- a Bod y Clerc i anfon copïau o gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio at yr Arolygydd pob tair wythnos, unwaith y byddant wedi cael eu gwirio gan y Cadeirydd.***
- b Trefnu dau gyfarfod peilot 'Cydllynu gyda'r Heddlu' pob chwarter, i'w cynnal yn Ionawr ag Ebrill 2016, lle fydd Rhingyll Heddlu'r Gymdogaeth ac un neu ddau o'i dim lleol yn bresennol mewn cyfarfod anffurfiol yn Neuadd y Dref er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw faterion lleol ac ymateb i unrhyw gwestiynau / pryderon. Ni ddisgwylir i bob Aelod o'r Cyngor fynychu pob cyfarfod chwarterol, ond bydd ganddynt y dewis i wneud hyn mor aml ag y hoffent. Bydd adroddiad byr o'r prif bwyntiau a thrafodwyd yn y cyfarfod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn, er gwybodaeth yn unig.***
- c. Fe gynhelir y cyfarfod cyntaf o'r fath am 6pm naill ar ddydd Llun, 18^{fed} neu ddydd Mercher, 20^{fed} Ionawr 2016 (y dyddiad i gael ei gadarnhau gan y Clerc).***
- ch. Bydd agenda drafft ar gyfer y cyfarfod yn cael ei baratoi gan y Clerc a'i anfon at yr Arolygydd a'r Rhingyll Paul Bricknell am eu sylwadau.***
- d Un eitem ar gyfer agenda'r cyfarfod cyntaf bydd sut y gellir ymglymu'r Cyngor Tref orau yn yr Archwiliadau Amgylcheddol Gweledol (AAG) lleol gyda chynrychiolwyr yr Heddlu a'r Cyngor Sir.***
- dd Bydd yr Arolygydd yn parhau i fynychu o leiaf un cyfarfod o'r Cyngor llawn bob blwyddyn i gyflwyno mwy o wybodaeth strategol ac ystadegau am droseddau i'r Cyngor ac i ymateb i unrhyw bryderon na chawsant eu trin yn y cyfarfodydd chwarterol (ar yr amod eu bod yn cael cyflwyno cyn y cyfarfod). Mae'r Arolygydd Dros Dro wedi cytuno i annerch Cyfarfod y Cyngor, dydd Llun. 25^{ain} Ionawr 2016 am 6.30pm.***
- e Dylai'r Aelodau parhau i godi eitemau o bryder o fewn eu hardaloedd lleol yn uniongyrchol gyda'u CBM / PCSO lleol a pheidio â disgwyl am y cyfarfod chwarterol nesaf. Mae'r wybodaeth gyswllt ddiweddaraf ar gyfer y tîm plismona lleol ar gael ar wefan Heddlu Gogledd Cymru.***

Daeth y cyfarfod i am 7.40 p.m.

..... Cadeirydd